



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol Tâl am ymgysylltu cyn cyhuddo – Crynodeb

Yn 2018, cyhoeddodd swyddfa'r Twrnai Cyffredinol ei hadolygiad o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd datgelu yn y system cyfiawnder troseddol. Canfu'r adolygiad fod ymgysylltu cynnar ac ystyrlon rhwng tîm yr erlyniad a'r amddiffyniad yn hollbwysig er mwyn gwella'r broses ddatgelu a bod diffyg trafodaeth cyn cyhuddo rhwng ymchwilyr/erlynwyr a'r rhai sy'n cynrychioli'r sawl sydd dan amheuaeth, yn llesteirio datrys materion yn ymwneud â thystiolaeth yn gynnar, yn enwedig pan fo llawer iawn o ddeunydd digidol.

Argymhellodd yr Adolygiad y dylai canllawiau Datgelu'r Twrnai Cyffredinol gynnwys arweiniad ar ymgysylltu cyn cyhuddo ac y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder adolygu sut y telir am waith o'r fath. Roedd tâl am ymgysylltu cyn cyhuddo yn un o bum maes y bu i ni gytuno i'w gyflymu fel rhan o'r Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol (CLAR) ond ni chafodd ei gynnwys yn yr ymgynghoriad cynharach gan ein bod yn aros am ganlyniad ymgynghoriad cyhoeddus y Twrnai Cyffredinol ar adolygu eu Canllawiau ar Ddatgelu, a lansiwyd ar 26 Chwefror 2020. Cyhoeddwyd ymateb ar 10 Medi 2020.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynigion i gyflwyno trefniadau talu newydd am waith cysylltiedig ag ymgysylltu ag awdurdodau erlyn yn ystod y cam cyn cyhuddo, fel y'i diffiniwyd yng nghanllawiau'r Twrnai Cyffredinol.

Rydym yn cynnig uned newydd o waith ar gyfer cyngor a chymorth yn gysylltiedig ag ymgysylltu cyn cyhuddo, fel y'i diffiniwyd yng nghanllawiau'r Twrnai Cyffredinol. Bydd ymarferydd yr amddiffyniad yn cael tâl pan fydd y partïon perthnasol (erlynwyr ac/neu ymchwilyr, y sawl a amheuir a chynrychiolwyr y sawl a amheuir) wedi cytuno y gallai ymgysylltu cyn cyhuddo gynorthwyo'r ymchwiliad ac y gwneir cofnod ysgrifenedig llawn o'r trafodaethau gan yr amddiffyniad. Gall y naill barti neu'r llall ysgogi hyn. Bydd hawliadau am y gwaith hwn yn amodol ar y broses archwilio safonol a ddefnyddir gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) ar gyfer yr holl Waith Contract arall.

Gan y gall llawer o'r gwaith hwn ddigwydd yn yr orsaf heddlu, rydym yn cynnig, fel Cyngor a Chymorth i Orsafoedd Heddlu, na ddylid cael prawf modd ar gyfer ymgysylltu cyn cyhuddo; ni fydd gofyniad i wneud penderfyniad ynghylch adnoddau ariannol unigolyn. Ni fyddai'n bragmatig gohirio'r ymchwiliad er mwyn cymhwyso'r prawf modd yn yr amgylchiadau hyn a byddai'n tanseilio prif amcan y polisi: hwyluso achosion yn effeithiol ac yn effeithlon. Yn yr un modd â phob Gwaith Contract arall, bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn defnyddio prawf budd digonol. Y profion budd digonol ar gyfer ymgysylltu cyn cyhuddo fydd: Ni cheir darparu cyngor a chymorth sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu cyn cyhuddo, fel y'i diffinnir yng nghanllawiau'r Twrnai Cyffredinol, oni bai fod cytundeb ysgrifenedig rhwng y partïon perthnasol y gallai ymgysylltu cyn cyhuddo fod o gymorth (bod yn ddigon buddiol) i'r ymchwiliad.

Rydym yn cynnig bod y gwaith hwn yn cael ei dalu ar gyfradd fesul awr ac ar yr un gyfradd â chyfraddau presennol Cyngor a Chymorth i Orsafoedd Heddlu (£51.28 yn Llundain, £47.45 y tu allan i Lundain). Rydym wedi dewis cyflwyno ffioedd sy'n cyfateb i gyfraddau gwaith gorsaf heddlu oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i dalu am waith tebyg yn yr orsaf heddlu.

Gan fod hon yn uned waith newydd, nid yw'n glir faint o waith sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu cyn cyhuddo, felly ar hyn o bryd rydym yn cynnig terfyn uchaf o £273.75 a thu hwnt i hyn bydd yn ofynnol i ddarparwyr wneud cais i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol am estyniad. Pennir hyn ar yr un lefel â'r math arall o gyngor a chymorth cyn cyhuddo sy'n cael ei dalu ar hyn o bryd ar gyfraddau fesul awr, Cyngor a Chymorth Sefydlog am Ddim.

Gan fod hon yn ffi newydd, maes o law byddwn yn gwerthuso'r gwaith dan sylw, faint o waith a wneir ac a yw'r cyfraddau fesul awr arfaethedig a'r terfyn uchaf yn talu'n deg am y gwaith a wneir.

O dan y cynnig hwn, dirprwyir y swyddogaeth i ddarparwyr roi cymorth cyfreithiol iddynt eu hunain a chofnodi ar ffeil yn debyg i waith cyn cyhuddo arall. Bydd gwaith ymgysylltu cyn cyhuddo yn cael ei filio ynghyd â'r holl Waith Contract arall fel rhan o gyflwyno ffurflen adroddiad contract misol darparwr. Fodd bynnag, bydd gofyn i'r darparwr gadw ar ffeil brawf ysgrifenedig bod pob parti perthnasol wedi cytuno i gymryd rhan yn y broses cyn ymgysylltu a chofnod llawn o'r ymgysylltu.

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori.

**Cwestiwn Un:** Ydych chi'n cytuno â'n dull arfaethedig o dalu am waith sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu cyn cyhuddo? Nodwch ydw/nac ydw a rhowch resymau os gwelwch yn dda.

**Cwestiwn Dau:** Os nad ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer talu am waith sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu cyn cyhuddo, awgrymwch opsiwn arall a rhowch esboniad ategol, os gwelwch yn dda.

**Cwestiwn Tri:** Ydych chi'n cytuno â'r tybiaethau a'r casgliadau a amlinellir yn yr Asesiad o Effaith? Nodwch ydw/nac ydw a rhowch resymau os gwelwch yn dda. Darparwch unrhyw dystiolaeth empirig sy'n ymwneud â'r cynigion yn y ddogfen hon.

**Cwestiwn Pedwar:** Ar sail eich profiad chi a oes unrhyw grwpiau neu unigolion â nodweddion gwarchoddedig a all gael eu heffeithio'n benodol, yn bositif neu'n negyddol, gan y cynigion yn y papur? Byddem yn croesawu unrhyw enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth i gefnogi'ch barn.

**Cwestiwn Pump:** Yn eich barn chi, beth fyddai effaith pob un o'r cynigion ar gydraddoldeb yn achos unigolion â nodweddion gwarchoddedig? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Rhowch dystiolaeth a rhesymau, os gwelwch yn dda.